Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffurflen Cyflwyno Gweithredu

# Canllaw Sut i Lenwi

© Hawlfraint y Goron 2024 WG50996

ISBN digidol: **978-1-83625-858-2** **Fersiwn 0.2**

# Cynnwys

Gwybodaeth ........ 3
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Mewngofnodi ........ 4
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan ........ 5
Contractau a Grantiau Bach ........ 5
Dechrau Arni ........ 6
Parhau gyda Gweithrediadau ........ 6
Ffurflen Cyflwyno Gweithrediadau - Dileu/Dechrau eto ........ 7
Tudalen Gyflwyno ........ 10
Gweithgareddau sy'n Gofyn am Ddyfynbrisiau / Eitemau ........ 10
Cyflwyno Dyfynbrisiau ........ 11
Ychwanegu eitemau ar gyfer prif weithgareddau ........ 19
Ychwanegu Cyfeirnodau y Cwsmer ar gyfer Prosiectau ........ 21
Gweithgareddau Sydd Angen Lleoliad ........ 25
Cyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb ........ 29
Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau ........ 32
Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno ........ 32
Rhagor o Weithredu ........ 33

## Gwybodaeth

Mae’r canllaw hwn yn esbonio gam wrth gam sut mae llenwi'ch Ffurflen Cyflwyno Gweithredu. Mae'n berthnasol i sawl cynllun.

Darllenwch ganllawiau’r cynllun perthnasol i weld rheolau’r cynllun a phwy sy’n gymwys.


Rhaid llenwi'r Ffurflen Cyflwyno Gweithredu ar RPW Ar-lein. Cewch gyflwyno faint a fynnoch o Ffurflenni Cyflwyno Gweithredu yn ystod ffenest y prosiect a chyflwyno sawl gweithrediad ar bob ffurflen.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ategol, fel dyfynbrisiau, ar gyfer pob eitem er mwyn cael cyflwyno'ch ffurflen.

Pwysig: Os ydych yn cael trafferth gydag RPW Ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

# Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Mewngofnodi

Mae’r Ffurflen Cyflwyno Gweithredu i’w chael ar eich Cyfrif RPW Ar-lein drwy ddefnyddio Porth y Llywodraeth neu ar GOV.UK One Login.




## Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

○ Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
○ Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

### Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

### Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

### Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dîm ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.

Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.

### Sut mae cysylltu i ofyn cwestiwn?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y newid i One Login GOV.UK, Cysylltwch â ni


Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl mewngofnodi i’ch cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan


I weld y Ffurflen Cyflwyno Gweithredu, cliciwch y tab 'Contractau a Grantiau Bach' ar sgrin hafan RPW Ar-lein, fel y gwelwch isod.




I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm English ar gornel dde ucha'r sgrin. Bydd hyn yn caniatáu ichi ddewis iaith eich Ffurflen Cyflwyno Gweithredu.


## Tudalen Contractau a Grantiau Bach

Bydd y rhestr o gontractau byw sydd ar gael i chi eu dechrau neu barhau â nhw gan gynnwys y ffurflen Cyflwyno Gweithredu, yn cael eu rhestru ar y dudalen hon.




# Dechrau Arni

Ar ôl i chi ddarllen y Llyfrynnau Canllaw, gallwch ddechrau llenwi'ch ffurflen Cyflwyno Gweithredu trwy glicio ar y botwm 'Cychwyn y Gweithrediadau'.





# Parhau gyda Gweithrediadau

Ar ôl dechrau llenwi'ch ffurflen Cyflwyno Gweithredu, gallwch ei gadael a dod yn ôl ati nes ymlaen. Os ydych chi'n dod yn ôl i orffen llenwi Ffurflen Cyflwyno Gweithredu ar ôl dechrau ei llenwi, cliciwch ar y botwm 'Parhau â'r Gweithredu' ar y dudalen ddewis (botwm glas).




## Ffurflen Cyflwyno Gweithredu - Dileu/Dechrau eto

Os ydych chi am ddileu'r ffurflen a dechrau eto, gallwch ddewis 'Dechrau Eto' trwy glicio ar y ddolen a ddangosir ar y sgrinlun hwn:



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan Manylion y CRN Tir Gohebiaeth 26 Ffurflenni Contractau a Grantiau Bach Cynlluniau Coetir

# Ffurflen Gyflwyno Cam Gweithredu

Rydych chi wedi gofyn am gael cyflwyno dyfynbris ar gyfer: **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau.** Mae gennych Ffurflen Cyflwyno Gweithred ar ei hanner eisoes. Cliciwch 'Parhau' er mwyn parhau â'ch ffurflen Cyflwyno Gweithred ar gyfer **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau.**

Gallwch ddewis dileu eich Ffurflen Cyflwyno Gweithred ar gyfer **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau** a dechrau eto. Bydd hyn yn dadwneud yr holl newidiadau yr ydych wedi'u gwneud ers dechrau llenwi'ch Ffurflen Cyflwyno Gweithred ar gyfer **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau** a bydd y Ffurflen Cyflwyno Gweithred newydd ar gyfer **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau** yn cael ei llenwi gyda'r data diweddaraf sydd ar gael. Os ydych am wneud hynny, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Ni fydd y Ffurflen Cyflwyno Gweithred yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru tan ichi glicio ar yr opsiwn 'Cyflwyno' ar ddiwedd y broses. Pan fyddwch wedi cyflwyno'ch ffurflen, ni fyddwch yn cael gwneud newidiadau iddi ar RPW Ar-lein.

Os ydych yn cael problem llenwi'ch Ffurflen Cyflwyno Gweithred ar gyfer **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau** cysylltwch â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

**Cyfeiriad**

**Côd Post**

**Rhif Ffôn**

**Nifer y Partneriaid**

Dewisiadau Ar-lein

**E-bost ynte neges destun (SMS)**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn symudol**


Parhau i weithio ar y cyflwyniad gweithredu ar gyfer **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau** a ddiweddarwyd ddiwethaf ar

Parhau | Yn ôl

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd


Cofiwch – trwy glicio ar 'Dechrau Eto', byddwch yn colli'r holl wybodaeth y byddwch wedi'i llenwi hyd yma.

Os ydych yn siŵr eich bod am ‘Ddechrau Eto’, cliciwch ar 'Ydw', neu fel arall cliciwch ar 'Na', fel y gwelwch ar y sgrinlun hwn:



# Tudalen Cyflwyniad

Dyma'r dudalen gyflwyniadol sy'n rhoi gwybodaeth am y Ffurflen Cyflwyno Gweithredu.




Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar Nesaf.




# Gweithgareddau sy'n Gofyn am Ddyfynbrisiau / Eitemau

Mae'r dudalen Gweithgareddau sydd Angen Dyfynbrisiau / Eitemau yn caniatáu i'r gweithgareddau canlynol gael eu cyflwyno yn dibynnu ar y contract y mae'r Ffurflen Cyflwyno Gweithgaredd yn ymwneud ag ef:

- Cyflwyno dyfynbrisiau
- Ychwanegu Eitemau ar gyfer y prif weithgareddau
- Ychwanegu Cyfeirnodau y Cwsmer ar gyfer Prosiectau

# Cyflwyno dyfynbrisiau

Defnyddir yr adran hon i gyflwyno dyfynbrisiau ar gyfer y cynlluniau canlynol –

- Cylch Cyllido Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru (WMFS).
- Cynllun Buddsoddi Mewn Rheoli Maetholion (NMIS).
- Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS).

TAW

Dylid eithrio TAW o werth cyffredinol yr eitem oni bai eich bod wedi cadarnhau nad ydych wedi'ch cofrestru ar TAW ac felly'n gymwys i hawlio am TAW na ellir ei adfer.


TAW na ellir ei adennill

Dylid cynnwys TAW na ellir ei adennill yng ngwerth yr eitem. Er enghraifft, os yw cyfanswm gwerth yr eitem heb TAW yn £800, a'ch bod yn gymwys i hawlio am TAW na ellir ei adenill, dylech roi cyfanswm gwerth yr eitem fel £1000.

Bydd cynnwys y TAW na ellir ei adennill yng nghyfanswm gwerth yr eitem yn sbarduno'r gofynion dyfynbris os yw gwerth yr eitem wedyn yn fwy na £1000, neu £5000.
Os nad ydych yn cyflwyno dyfynbris gyda'r Ffurflen Cyflwyno Camau oherwydd TAW na ellir ei adenill, rhaid i chi roi gwybod i RPW am hyn drwy neges ar eich cyfrif RPW Ar-lein.


Os yw cost yr eitem yn llai na £5000 heb TAW ond dros £5000 gyda TAW wedi'i gynnwys, bydd angen tri dyfynbris. Rhaid i chi dicio'r blwch i nodi eich bod am gyflwyno'r cais gyda llai na thri dyfynbris ar gyfer yr eitem hon. Bydd blwch testun hefyd yn ymddangos i chi i esbonio pam rydych chi'n cyflwyno llai na thri dyfynbris ar gyfer yr eitem hon, lle dylech egluro bod hyn oherwydd bod y TAW yn cymryd gwerth yr eitem dros £5000, felly dim ond un dyfynbris sydd ei angen.


Bydd yr eitemau y bydd angen dyfynbris arnynt yn cael eu rhestru o dan y tab hwn a'u dangos fesul rhes ar y tab. Byddwn yn dangos ID, Côd Opsiwn, Enw/Disgrifiad, Cyfanswm y Gost a Dyfynbrisiau wedi'u Darparu.





**Ar gyfer eitemau sy'n werth rhwng £1,000 a £4,999 mae angen 1 dyfynbris ac ar gyfer eitemau sy'n werth £5,000 neu fwy mae angen 3 dyfynbris.**

I nodi'r dyfynbris, dewiswch res yr Eitem dan sylw. Cliciwch ar y botwm 'Addasu' i fynd i dudalen Manylion yr Eitem honno.







Yn y dudalen Manylion yr Eitem, cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Dyfynbris' ac fe welwch y dudalen hon.  Rhowch fanylion y dyfynbris.



Os ydych yn nodi sawl dyfynbris neu dim ond un dyfynbris ar gyfer yr eitem gwariant hon, bydd angen ichi dicio’r blwch ‘Dyfynbris a Ffefrir’. Bydd blwch testun yn agor i chi roi manylion 'Pam ydych chi’n ffafrio’r dyfynbris hwn?' Rhaid ateb y cwestiwn hwn cyn cael bwrw ymlaen â'r ffurflen hon.





Os mai'r ateb i'r cwestiwn 'A oes gennych chi neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Prosiect fudd yn y cyflenwr hwn?' yw 'Oes', bydd blwch testun yn agor ichi gael esbonio beth mae'r Busnes/Sefydliad wedi'i wneud i leihau'r gwrthdaro buddiannau hwnnw. Rhaid ateb y cwestiwn hwn cyn cael bwrw ymlaen â'r ffurflen hon.





## Dogfennau Ategol

Mae'n rhaid i chi lanlwytho tystiolaeth o'r dyfynbris. Dylai gynnwys gwerth y dyfynbris a manylion y cyflenwr.

I lanlwytho'r ddogfen, cliciwch y botwm 'Ychwanegu' glas.






Cewch y dewis i 'Safio' y dyfynbris neu i 'Cadw a Dychwelyd' i dudalen Manylion yr Eitemau.





Pan fyddwch chi 'nôl ar dudalen Manylion yr Eitem, fe welwch fanylion eich dyfynbris.





Os oes angen rhoi dyfynbris arall, cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Dyfynbris'. Cewch wneud hyn faint a fynnoch yn ôl y gofyn.





Os ydych am ddileu rhes rydych wedi'i hychwanegu, cliciwch ar y botwm 'Dileu'.




Os yw gwerth eich dyfynbris yn fwy na £5,000, a dim ond un dyfynbris sydd gennych i'w gyflwyno, rhaid ichi dicio'r blwch i ddangos eich bod am gyflwyno'r cais gyda llai na'r tri dyfynbris gofynnol ar gyfer yr eitem fuddsoddi hon. Fe welwch flwch testun lle gallwch esbonio pam eich bod yn cyflwyno llai na tri dyfynbris ar gyfer yr eitem fuddsoddi hon.






Cewch y dewis i 'Safio' y dyfynbris neu i 'Cadw a Dychwelyd' i'r dudalen Gweithgareddau sy'n Gofyn am Ddyfynbris / Eitemau.





Ar ôl ichi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm Nesaf.





Mae'r system yn archwilio data sylfaenol a meysydd gorfodol ar y ffurflen hon a bydd negeseuon gwall neu wybodaeth yn ymddangos wedi ichi glicio 'Safio' neu 'Nesaf'.




Ar ôl i chi gywiro unrhyw wallau ac ateb yr holl gwestiynau ar bob tudalen cliciwch 'Safio a Dychwelyd' i fynd i'r dudalen Gweithgareddau sy'n Gofyn am Dyfynbris / Eitemau, yna cliciwch ar y botwm 'Nesaf'.








## Ychwanegu Eitemau ar gyfer gweithgareddau


Defnyddir yr adran hon i ychwanegu eitemau ar gyfer prif weithgareddau y cynllun canlynol –

- Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS).


Bydd y prif weithgareddau a allai fod yn gofyn am ychwanegu is-eitemau yn cael eu rhestru ar y tab hwn a byddant yn cael eu dangos ar bob rhes ar y tab rhesi unigol, gan fanylu ar yr ID, Cod Yr Eitem, Enw/Disgrifiad, Cyfanswm y Gost (£), Cyfanswm y Gost sy'n Weddill (£) Dyfynbrisiau wedi'u darparu.


Ffurflen Cyflwyno Camau Gweithredu
Gweithgareddau sy'n gofyn am ddyfynbrisiau / eitemau
Cuddio Helpu
Yn ôl
Safio
Nesaf
Helpu
Cyflwyniad
Gweithgareddau sy'n gofyn am ddyfynbrisiau / eitemau
Gweithgareddau y mae angen lleoliad arnynt
Cyflwyno
Help
Defnyddir y dudalen hon ar gyfer y canlynol:
Cyflwyno dyfynbrisiau pan fydd ar gael
Ychwanegu eitemau ar gyfer y prif weithgareddau
Ychwanegu CRNs ar gyfer Prosiectau
Yr ydych yn gallu cyflwyno nifer o ffurflenni.
Os ydych yn rhoi nifer fawr o ddyfynbrisiau neu'n ychwanegu nifer fawr o eitemau ychwanegol ar y dudalen hon, cliciwch y botwm 'cadw' o bryd i'w gilydd i osgoi colli eich mewnbwn.
Gellir parhau i ychwanegu eitemau ar ôl i chi fynd y tu hwnt i'r gwerthoedd a ddyfarnwyd ar gyfer eich prosiect.
Fodd bynnag, nodwch y byddwch yn cael eich capio i'r cyfansymiau Cyfalaf a Refeniw ar eich Llythyr Dyfarnu Grant.
I guddio'r testun help hwn a gwneud mwy o le ar eich sgrin, cliciwch ar y botwm 'Cuddio Helpu'.
Eitemau Buddsoddi
Os oes angen I ychwanegu eitemau dylech glicio ar y botwm 'ychwanegu eitem' yn erbyn y prif weithgaredd perthnasol.
Os oes angen I ychwanegu dyfynbrisiau, cliciwch ar y botwm 'addasu' wrth yr eitem berthnasol
I gwblhau'r adran hon, mae'n rhaid eich bod wedi cael dyfynbrisiau. Mae'n rhaid i chi lanlwytho tystiolaeth o'r dyfynbrisiau.
Os yw gwerth eitem fuddsoddi rhwng £1000 a £4999 mae angen un dyfynbris.
Os yw gwerth eitem fuddsoddi yn £5000 neu'n uwch mae angen tri dyfynbris.
Dod o hyd i Eitemau
Id
Cod yr Eitem
Enw / Disgrifiad
Cyfanswm y gost (£)
Cyfanswm y gost sy'n weddill (£)
Dyfynbrisiau wedi'u darparu
IN011 D002 Refeniw – Ystadau 288,000.00 288,000.00 N/A Ychwanegu eitem
IN012 D002 Refeniw – Ystadau 14,400.00 14,400.00 N/A Ychwanegu eitem
IN013 D002 Refeniw – Ystadau 3,240.00 3,240.00 N/A Ychwanegu eitem
IN014 D002 Refeniw – Ystadau 26,250.00 26,250.00 N/A Ychwanegu eitem
Printio
English

I ychwanegu is eitem i brif weithgaredd, dewiswch y rhes berthnasol ar gyfer y gweithgaredd perthnasol.  Cliciwch y botwm ‘Ychwanegu eitem’ i ychwanegu y dudalen Manylion yr eitem ar gyfer yr eitem honno.





Ar y dudalen Manylion yr eitem nodwch yr Enw/Disgrifiad ac Amcangyfrif o gost yr eitem.





Os nag oes gennych ddyfynbris ar gyfer yr eitem, dewiswch ‘Na’, yna mae gennych yr opsiwn i ‘Safio’ neu i ‘Cadw a Dychwelyd’ i’r dudalen Gweithgareddau sydd Angen Dyfynbrisiau / Eitemau.

Os oes gennych ddyfynbris ar gyfer yr eitem, dewiswch ‘Oes’, ac fe welwch y dudalen hon sy’n caniatáu ichi ychwanegu dyfynbris.




Dewiswch y botwm 'Ychwanegu Dyfynbris' a chyfeiriwch at yr adran 'Cyflwyno Dyfynbrisiau' sy'n rhoi canllawiau ar sut i ychwanegu dyfynbrisiau.


## Ychwanegu Cyfeirnodau y Cwsmer ar gyfer Prosiectau




Defnyddir yr adran hon i ychwanegu Cyfeirnodau y Cwsmer ar gyfer prosiectau i’r cynllun canlynol –


- Ffermio Bro

Os yw Dyfarniad Grant yn gofyn am fanylion Cyfeirnod y Cwsmer ar gyfer prosiect, dangosir y dudalen 'Gweithgareddau sydd Angen Dyfynbrisiau / Eitemau', yn manylu ar yr ID, y Cod Eitem, Cyfeirnod y Cwsmer (CRN), yr Enw / Disgrifiad, Cyfanswm y Gost (£) a Chyfanswm y Gost sy'n Weddill (£).





Dewiswch 'Ychwanegu eitem' a bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos:


Bydd angen i chi ychwanegu Cyfeirnod y Cwsmer (CRN), Cod Post, yr Enw / Disgrifiad ac Amcangyfrif o Gost Eitem ar gyfer pob prosiect sydd gennych yn eich Dyfarniad Grant.





Unwaith y byddwch wedi ychwanegu’r wybodaeth ofynnol, cliciwch ‘Cadw a Dychwelyd’




Os nid yw'r cod post rydych wedi'i roi yn cyfateb i'r CRN, bydd neges rhybudd yn ymddangos.




Os ydych yn 'Cadw a Dychwelyd' ond nad ydych wedi darparu Cyfeirnod y Cwsmer (CRN), Cod Post, yr Enw / Disgrifiad a/neu Amcangyfrif o Gost yr Eitem, bydd y neges rybudd ganlynol yn ymddangos ar y dudalen 'Gweithgareddau sydd Angen Dyfynbrisiau/Eitemau' a fydd yn eich atal rhag symud ymlaen â'r Ffurflen Cyflwyno Gweithredu.






Dewiswch ‘Addasu’ i ddychwelyd i’r dudalen flaenorol ac i nodi y manylion gofynnol neu ‘Dileu’ i ddileu yr is eitem.

Os ydych wedi ychwanegu Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) anghywir, bydd y neges ganlynol yn ymddangos: Edrychwch eto ar fanylion Cyfeirnod y Cwsmer i wneud yn siŵr eu bod yn gywir er mwyn mynd ymlaen.




Wrth i chi ychwanegu'r prosiectau, mae'r golofn 'Cyfanswm y Gost sy'n Weddill (£)' yn diweddaru i ddidynnu 'Cyfanswm cost (£)' pob prosiect. Mae hyn yn diweddaru i ddangos faint o gyllid sy'n dal ar ôl i chi ei hawlio.





Os byddwch yn mynd dros gwerth Cyfanswm Cost sy'n Weddill (£), byddwch yn dal i allu darparu rhagor o fanylion y prosiect, ond bydd ffigur minws yn ymddangos yn y golofn 'Cyfanswm y Gost sy'n Weddill (£)'. Bydd neges wybodaeth yn ymddangos i ddweud eich bod wedi mynd dros Gyfanswm Uchafswm Gwerth y Grant Cyfalaf.

Byddwch yn dal i allu cyflwyno eich Ffurflen Cyflwyno Gweithredu gyda'r neges wybodaeth hon yn ymddangos.





Unwaith y byddwch yn fodlon eich bod wedi ychwanegu yr wybodaeth angenrheidiol i'r dudalen hon, pwyswch 'nesaf' i fynd ymlaen.

## Gweithgareddau sydd Angen Lleoliad


Defnyddir yr adran hon i ychwanegu gweithgareddau sydd angen lleoliad ar gyfer y cynllun canlynol –

- Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS).


Os yw contract yn cynnwys gweithgareddau sy'n gofyn am leoliad, dangosir y dudalen 'Gweithgareddau sydd angen Lleoliad', sy'n manylu ar yr ID, y Cod yr Eitem, yr Enw / Disgrifiad a Yr hyn mae angen ei wneud.



I ychwanegu parsel/lleoliad cae, dewiswch y rhes berthnasol ar gyfer yr eitem berthnasol. Cliciwch y botwm 'Addasu' i fynd i mewn i'r dudalen Gweithgareddau sydd Angen Lleoliad – Manylion yr Eitem ar gyfer yr eitem honno.




Ar y dudalen Gweithgareddau sydd Angen Lleoliad arnynt – Manylion Eitem, dewiswch y botwm ‘Ychwanegu Parsel’.





Ar y dudalen Gweithgareddau sydd Angen Lleoliad arnynt – Manylion Eitem – Manylion Parsel, nodwch Gyfeirnod y Ddalen a’r Rhif y Cae.




Yna mae gennych yr opsiwn i 'Safio' neu i 'Cadw a Dychwelyd' i'r dudalen Gweithgareddau sydd Angen Lleoliad arnynt.






Mae gwiriadau uniondeb data sylfaenol a meysydd gorfodol wedi'u cynnwys yn y ffurflen hon, bydd unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth yn ymddangos ar ôl i chi naill ai glicio '' Safio' neu 'Cadw a Dychwelyd' ar y dudalen.







Ar ôl i chi gywiro unrhyw wallau ac ateb yr holl gwestiynau, cliciwch 'Safio a Dychwelyd' i'r dudalen Gweithgareddau sydd Angen Lleoliad arnynt ac yna cliciwch ar y botwm 'Nesaf'.








## Cyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn dweud wrthych am unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth ar eich Ffurflen Cyflwyno Gweithredu.




Ar ôl ichi gywiro unrhyw wallau bydd tic gwyrdd yn cael ei roi wrth bob adran.






Cliciwch 'Nesaf' i fynd i'r sgrin Datganiadau ac Ymgymeriadau



# Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau

Rhaid darllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio'r blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen ac yn cytuno â nhw.








Cliciwch 'Nesaf' i fynd i'r sgrin Cyflwyno.





# Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno'ch Ffurflen Cyflwyno Gweithredu, cliciwch y botwm 'Cyflwyno'.




Ar ôl ei chyflwyno, byddwn yn anfon cadarnhad atoch y gallwch ei brintio ar gyfer eich ffeiliau.




Bydd crynodeb o'ch Ffurflen Cyflwyno Gweithredu yn cael ei hychwanegu at eich tudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law gan Taliadau Gwledig Cymru". Gofalwch fod yr wybodaeth rydych wedi'i chyflwyno'n gywir. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, rhowch wybod ar y dudalen 'Negeseuon' gan ddisgrifio beth sy'n eich poeni. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y gwelwch wybodaeth anghywir.

## Rhagor o Weithrediadau

Os na wnaethoch chi gyflwyno'ch holl weithrediadau, gallwch gyflwyno rhagor o weithrediadau trwy fynd yn ôl i'ch cyfrif RPW Ar-lein a chlicio ar y tab Contractau.

Bydd y contract perthnasol unwaith eto'n dangos y botwm 'Cychwyn y Gweithrediadau' i chi gael cyflwyno Ffurflen Cyflwyno Gweithredu arall.

Os ydych yn cael problemau neu'n ei chael yn anodd mynd ar ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.